**ADRODDIAD I'R CABINET**
10 Ebrill 2018

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Gareth Thomas

**Pwnc:** Dyfodol Darpariaeth Addysg yn Nalgylch Y Berwyn

**Swyddog Cyswllt:** Garem Jackson – Pennaeth Addysg

---

**Y penderfyniad a geisir**

Gweithredu ar y cynnig a gyhoeddwyd ar 26 Chwefror 2018 i gau Ysgol Bro Tegid, Ysgol Beuno Sant ac Ysgol y Berwyn, yn nhref Y Bala ar 31 Awst 2019 a sefydlu Campws Dysgu 3-19, Cyfrwng Cymraeg, statws cymunedol, ("Y Campws"), ar safle presennol Ysgol y Berwyn i agor ar 1 Medi 2019.

---

**Barn yr aelodau lleol**

Bydd unrhyw sylwadau gan yr Aelodau Lleol yn cael eu cyflwyno yn y cyfarfod.

---

**1. Cyflwyniad**

1.1 Ar 27 Mehefin 2017, penderfynodd y Cabinet dynnu'r cynnig a gymeradwywyd ym mis Medi 2015, i sefydlu Campws Dysgu 3-19 Gwirfoddol a Reolir (VC Eglwys yng Nghymru) yn ei ôl, gan ofyn am adroddiad pellach i gyflwyno cynnig o'r newydd ar gyfer ymgynghoriad statudol fyddai'n cyfarch a chyd-fynd a gofynion yr Achos Busnes sydd eisoes wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Yn ogystal, fe ddirprwywyd hawl i'r Aelod Cabinet Addysg gynnal rhag-ymgynghoriad gyda'r Eglwys yng Nghymru ar y cynnig newydd, yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013.

1.2 Cynhaliwyd rhag-ymgynghoriad gyda'r Eglwys yng Nghymru rhwng 31 Awst a 28 Medi 2017. Fe ddaeth yn glir o'u hymateb i'r rhag-ymgynghoriad hwnnw mai'r disgyblion yw eu blaenoriaeth, a'u bod yn fodlon gweithio gyda'r ysgolion, y gymuned leol a'r Cyngor i sicrhau fod y prosiect yn mynd yn ei flaen.

1.3 Yn dilyn cynnal rhag-ymgynghoriad gyda'r Eglwys yng Nghymru, cyflwynwyd adroddiad pellach i'r Cabinet ar 24 Hydref 2017 a penderfynwyd i:

*"gynnal ymgynghoriad statudol yn unol ag Adran 48 Deddf Safonau Ysgolion (Cymru) 2013, yn nalgylch Y Berwyn ar y model a ffafrir, sef cynnig i gau ysgolion Beuno Sant, Bro Tegid ac Ysgol y Berwyn yn nhref y Bala, a sefydlu Campws Dysgu 3-19, cyfrwng Cymraeg, statws Cymunedol ar safle presennol Ysgol y Berwyn yn weithredol o fis Medi 2019"*

1.4 Yn unol â gofynion statudol y Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013) cynhaliwyd ymgynghoriad statudol yn nalgylch y Berwyn rhwng 22 Tachwedd 2017 a 10 Ionawr 2018.

1.5 Ar 13 Chwefror 2018, adroddwyd i'r Cabinet unwaith yn rhagor, er mwyn cyflwyno'r prif sylwadau a phwyntiau a dderbyniwyd gan fudd-ddeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad statudol, ynghyd ag ymateb y Cyngor i'r sylwadau hynny. Yn eu cyfarfod, penderfynodd y Cabinet fel a ganlyn:

*i. Cymeradwyo'r cynnig i gau Ysgol Bro Tegid, Ysgol Beuno Sant ac Ysgol y Berwyn ar 31 Awst 2019 a Sefydlu'r Campws Dysgu 3-19 Cyfrwng Cymraeg, statws cymunedol, ar safle presennol Ysgol y Berwyn i agor ar 1 Medi 2019.*

ii. *Cymeradwyo cyhoeddi rhybuddion statudol ar y cynnig i (i) uchod yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013*

## 2. Cyfnod Gwrthwynebu

2.1 Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013, y Cod Trefniadaeth Ysgolion, a phenderfyniad Cabinet 13 Chwefror 2018, cyhoeddwyd rhybudd statudol ar 26 Chwefror 2018, ac fe gynhaliwyd cyfnod o wrthwynebu statudol ar y cynnig rhwng 26 Chwefror a 26 Mawrth 2018.

2.2 Cyhoeddwyd Rhybudd Statudol ar 26 Chwefror 2018 a gosodwyd copïau o'r rhybudd ar giatiau'r 3 ysgol yn nhref y Bala ac ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg. Dosbarthwyd copïau electroneg a chaled o'r rhybuddion yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Nodwyd yn glir yn y rhybuddion bod modd i unrhyw un wrthwynebu a sut yr oedd modd gwneud hynny.

2.3 Dyma grynodeb o destun y Rhybudd Statudol:

(a) **CAU** YSGOL Y BERWYN, Y Bala, Gwynedd LL23 7RU, YSGOL BRO TEGID, Y Bala, Gwynedd, LL23 7BN, YSGOL BEUNO SANT, Y Bala, Gwynedd, LL23 7UU (Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir, Eglwys yng Nghymru), ar **31 Awst 2019**.

(b) **SEFYDLU** YSGOL 3-19 newydd, Cyfrwng Cymraeg, (statws Cymunedol) newydd ar **1 Medi 2019**. Bydd yr YSGOL 3-19 ar un safle, sef safle presennol Ysgol y Berwyn, Y Bala, Gwynedd, LL23 7RU. "

2.4 Yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu, mae'n ofynnol i'r Cabinet ystyried y gwrthwynebiadau a dderbyniwyd ac ymateb y Cyngor iddynt cyn gwneud penderfyniad terfynol i weithredu'r cynnig ai peidio. Mae adran 49 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad sy'n cynnwys crynodeb o'r gwrthwynebiadau yn ogystal ag ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau hynny.

2.5 Daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben ar 26 Mawrth 2018. **Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad yn ystod y cyfnod gwrthwynebu.** O ganlyniad, nid oes gofyn i gyhoeddi adroddiad gwrthwynebu fel rhan o'r cynnig.

2.6 Gan na dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad, argymhellir i'r Cabinet gadarnhau'n derfynol y cynnig i gau Ysgol Bro Tegid, Ysgol Beuno Sant ac Ysgol y Berwyn ar 31 Awst 2019 a sefydlu'r Campws Dysgu 3-19 Cyfrwng Cymraeg, statws cymunedol, ar safle presennol Ysgol y Berwyn i agor ar 1 Medi 2019

## 3. Effeithiau'r model arfaethedig ar y Gymuned, yr iaith Gymraeg a Chydraddoldeb

3.1.1. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru (*Cod Trefniadaeth Ysgolion 006/2013*) yn nodi'r angen i gynnal asesiad effaith cymunedol, ieithyddol a chydraddoldeb fel rhan o unrhyw gynnig i ad-drefnu ysgolion. Cwblhawyd yr asesiadau hyn ar y rhestr hir o fodelau posib. Cynhaliwyd yr asesiadau fel rhan o'r broses ymgynghori yn 2015, ac fe ddiweddarwyd yr asesiadau fel rhan o'r broses ymgynghori statudol diweddar. Dyma grynodeb o ganfyddiadau'r asesiadau:

### 3.2 Y Gymuned

3.2.1. Gan nad oes unrhyw ysgol wledig yn cau, a bod yr ysgolion yn nhref y Bala yn symud i un lleoliad sef y Campws Dysgu, ni ragwelir unrhyw effaith nac oblygiadau cymunedol o wireddu'r model ffafriedig.

3.2.2. Mae ystyriaeth bellach wedi bod i'r gymuned parthed y cynnig arfaethedig, yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu. Ystyrir fod canfyddiadau'r asesiad yn parhau'n gyfredol ac yn berthnasol i'r argymhelliad. Cyfeirir y Cabinet ar yr asesiad llawn sydd ar gael ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg fel rhan o'r dogfennau cefndirol.

3.3 **Yr Iaith Gymraeg**

3.3.1. Gan nad oes unrhyw safle gwledig yn cau, ni ragwelir unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg. Bydd disgyblion Bro Tegid a Beuno Sant yn trosglwyddo i'r Campws Dysgu, a bydd disgyblion oedran 11-19 yn parhau i dderbyn addysg mewn sefydliad fydd yn cynnwys yr un trawstoriad o ddisgyblion ag Ysgol y Berwyn ar hyn o bryd. Bydd categori iaith pob ysgol yn y dalgylch yn parhau'r un fath, sef categori cyfrwng Cymraeg. Ceir cyfle hefyd i gryfhau ymhellach weithrediad polisi iaith Gwynedd drwy sicrhau dilyniant yn y defnydd o'r iaith Gymraeg, yn addysgol ac yn gymdeithasol.

3.3.2. Mae ystyriaeth bellach wedi bod i'r iaith Gymraeg parthed y cynnig arfaethedig, yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu. Ystyrir fod canfyddiadau'r asesiad yn parhau'n gyfredol ac yn berthnasol i'r argymhelliad. Cyfeirir y Cabinet at yr asesiad llawn sydd ar gael ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg fel rhan o'r dogfennau cefndirol.

3.4 **Cydraddoldeb**

3.4.1. Rhoddodd yr asesiad hwn sylw penodol i elfennau cydraddoldeb gwahanol megis hil, rhyw, anabledd, iaith, crefydd neu gred ac oedran. Mae'r asesiad yn nodi'r sefyllfa bresennol a'r polisïau a threfniadau sydd mewn lle a fyddai yn sicrhau fod y cynnig yn ystyried ac yn cyd-fynd â hawliau cyfartal.

3.4.2. Wedi pwyso a mesur y ffactorau perthnasol, deuir i'r casgliad bod sicrwydd yr hyrwyddir cyfleoedd cyfartal yn gadarnhaol yn sgil y cynnig a bod mesurau mewn lle i sicrhau na fydd camwahaniaethu anghyfreithlon ac aflonyddu. Mae trefniadau mewn lle yn ogystal fydd yn monitro ac yn adolygu'r sefyllfa.

3.4.3. Mae ystyriaeth bellach wedi bod i gydraddoldeb parthed y cynnig arfaethedig, yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu. Ystyrir fod canfyddiadau'r asesiad yn parhau'n gyfredol ac yn berthnasol i'r argymhelliad. Cyfeirir y Cabinet at yr asesiad llawn sydd ar gael ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg fel rhan o'r dogfennau cefndirol.

**4. I grynhoi**

4.1 Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu cefnogi argymhelliad yr adroddiad hwn, yna gellir bwrw ymlaen gyda'r broses o sefydlu'r Campws gyda'r bwriad o agor yn swyddogol ym Medi 2019. Fel sydd wedi ei nodi mewn adroddiadau blaenorol, bydd cyfnod trosiannol rhwng dyddiad cwblhau'r gwaith adeiladu ar safle presennol Ysgol y Berwyn a dyddiad gweithredu'r cynnig, sef 1 Medi 2019. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd swyddogion yr adran Addysg yn gweithio'n agos gydag Ysgol Bro Tegid, Ysgol Beuno Sant ac Ysgol y Berwyn a'u cyrff llywodraethol i sefydlu cynllun pontio ar gyfer ysgolion cynradd y dref i sicrhau defnydd rheolaidd a phwrpasol gan yr ysgolion hynny o'r adnoddau newydd ar safle Ysgol y Berwyn yn ystod y flwyddyn cyn i'r Campws agor yn swyddogol yn Medi 2019.

**5. Camau Nesaf**

5.1 Os bydd penderfyniad terfynol gan y Cabinet i weithredu'r cynnig, yna fe fydd yr amserlen fel a ganlyn:

| Camau Nesaf | Amserlen Amlinellol |
|---|---|
| Creu Cynllun Cyfathrebu er mwyn rhannu gwybodaeth amserol a pherthnasol gyda'r prif ran-ddeiliaid | Ebrill 2018 |
| Cychwyn ar y broses o sefydlu corff llywodraethol cysgodol | Ebrill 2018 |
| Penodi Pennaeth | Tymor yr haf 2018 |
| Cau Ysgol Bro Tegid, Ysgol Beuno Sant ac Ysgol Y Berwyn | 31 Awst 2019 |
| Agor y Campws Dysgu 3-19 | 1 Medi 2019 |

**6 Argymhelliad**

6.1 Argymhellir felly i weithredu ar y cynnig i gau Ysgol Bro Tegid, Ysgol Beuno Sant ac Ysgol y Berwyn, yn nhref Y Bala ar 31 Awst 2019 a sefydlu Campws Dysgu 3-19, Cyfrwng Cymraeg, statws cymunedol, ("Y Campws"), ar safle presennol Ysgol y Berwyn i agor ar 1 Medi 2019.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**

*"Mae'r adroddiad yma wedi bod yn destun mewnbwn gan y Gwasanaeth Cyfreithiol felly dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb."*

**Prif Swyddog Cyllid:**

"*Mae fy sylwadau blaenorol i gyfarfodydd y Cabinet ar 27 Mehefin 2017 ac 24 Hydref 2017 – lle rhoddwyd sylw manwl i'r cynllun busnes – yn parhau'n ddilys, ac rwy'n cefnogi'r penderfyniad a geisir*."

---

**DOGFENNAU CEFNDIROL**

Mae holl ddogfennau cefndir perthnasol y cynnig ar gael ar wefan y Cyngor trwy ddilyn y ddolen www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg.

Mae'r dogfennau cefndir yn cynnwys:

- Cod Trefniadaeth Ysgolion 006/2013
- Cynllun Blaenoriaethau - Maes Trefniadaeth Darpariaeth Addysg
- Dogfen Ffydd mewn Addysg Llywodraeth Cymru
- Pecyn Ystadegol (2017-2018)
- Adroddiad Asesiad Effaith Ieithyddol
- Adroddiad Asesiad Effaith Cymunedol
- Adroddiad Asesiad Effaith Cydraddoldeb
- Asesiad o'r Angen am Wahanol Fathau o Ysgolion yn nalgylch y Berwyn, Y Bala (2014)
- Adroddiad a Thaflen Benderfyniad Cabinet – 27 Mehefin 2017
- Adroddiad a Thaflen Benderfyniad Cabinet – 24 Hydref 2017
- Dogfen Ymgynghori Statudol 22 Tachwedd 2017 – 10 Ionawr 2018
- Dogfennau Ymgynghorol gyda Disgyblion Cynradd ac Uwchradd y Dalgylch
- Rhybuddion Statudol a gyhoeddwyd 26 Chwefror 2018